PET(4) WPI 34
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan M. Islwyn Lake

Credaf ei bod yn wirioneddol bwysig fod ein Cynulliad yn sefydlu Academi Heddwch tebyg i`r un a geir yn Fflandyrs a hynny am y rhesymau a ganlyn.

1. Nid oes gan y Cynulliad lais o gwbl ar faterion tramor y Deyrnas Unedig er fod penderfyniadau ar y cyfryw yn effeithio`n ddirfawr ar ein pobl. Byddai Academi Heddwch o leiaf yn sicrhau fod yna drafodaeth yn digwydd o safbwynt Cymreig ar bynciau perthnasol i heddwch a rhyfel. Byddai yn sicrhau nad o safbwynt militaraidd a Phrydeinig y byddem yn cloriannu y polisi o ymyrryd yn filwrol mewn gwledydd eraill.

2. Byddai Academi Heddwch yn sicrhau hefyd fod unrhyw fwriad gan y Llywodraeth i sefydlu neu ehangu canolfannau milwrol ar ddaear Cymru yn cael eu gwyntyllu yn fanwl ac yn agored. Mae`r holl droeon lle na ddigwyddodd hyn yn tanlinellu pwysigrwydd trafodaeth gyfrifol a gwyliadwriaeth gyson gan gorff fel Academi Heddwch. Nodaf y math o ddigwyddiadau na fynegwyd barn am eu harwyddocâd.

   - Cafodd milwyr o`r Almaen, yn fuan ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ddod i ymarferiadau tanciau yn Sir Benfro er mawr ofid i lawer.
   - Cafodd y fyddin feddiannu tiroedd eang Epynt yn wyneb argyfwng cyfnod rhyfel. Er fod yr argyfwng hwnnw wedi hen fynd heibio maent yn dal eu gafael ar y tir er yr addewid y byddai`r tir yn cael ei ryddhau.
   - Pan benderfynwyd sefydlu prif ganolfan hyfforddiant milwrol Prydain yn San Athen ni fu trafodaeth o gwbl ar arwyddocâd hynny o safbwynt rhagolygon heddwch i`r byd. Golygodd y cynllun y byddai Cymru gyda`i thraddodiad heddwch yn dod yn faes dysgu rhyfel hyd yn oed i filwyr tramor. Ni roddwyd ddim sylw o gwbl i`r wedd honno.
   - Caniatawyd gofod awyr i`r awyrennau di-beilot yn Aberporth i gael eu hedfan ar draws gwlad i Epynt. Ni roddwyd sylw i`r peryglon i drigolion y rhanbarth ac ni ystyriwyd y cwestiynu a fu am foesoldeb y defnydd o`r arf soffistigedig newydd hwn.

3. I gloi mae gwir angen fforwm ar lefel Llywodraeth a fydd yn mesur a phwyso pob dim o natur filitaraidd ac yn rhoi arweiniad i`r Cynulliad ac i bobl Cymru. Gallai helpu ein pobl ni weld digwyddiadau yn gliriach a hynny nid yn unig o safbwynt Cymru ond o safbwynt y gymuned ryngwladol.

Mewn gair byddai`n hybu diwylliant heddwch yn unol â thraddodiadau heddwch Henry Richards a`i debyg.

M. Islwyn Lake

M. Islwyn Lake